# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 6ed o Fawrth 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Capel Pencaenewydd a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Yn bresennol** y Cynghorwyr (Cadeirydd), Anwen Jones, Euros Jones, Angela Williams, Gareth O. Davies, Aled Davies, Delyth Parry, Dylan Thomas, Rhys Tudur, Dewi Thomas a Miriam Williams a'r Clerc.

2. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Sian Angharad Parry, Tegid Jones, Darren Morley.

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6fed o Chwefror 2025.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Chwefror 2025.**

4. **Datgan buddiant personol – neb.**

5. **Un Llais Cymru - Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2025** – manylion ynglyn â'r opsiwn sydd gan aelodau i hawlio costau tuag at dreuliau ychwanegol sydd yn gysylltiedig â gweithio gartref. Mae'r ffigwr o £156.00 yn aros yr un fath am y flwyddyn nesaf rhwng 01.04.2025 – 31.03.2026. **Derbyn**.

6. **Cynllun Peilot Dwyfor / Cynllun Prynu Cartref**
Gwybodaeth gan Steffan Smith, Rheolwr Peilot Ailgartrefi a Fforddwyadwyedd yn hysbysebu'r cynllun.
Mae'r cynllun rwan yn hysbysebu hyblygrwydd i ystyried tai gwerth hyd at £350,000. Mae hyn er mwyn ymateb i'r her mewn cymunedau lle mae'r canolrif pris prynu dros £300,000. Mae mwy o fanyldeb am hyn o fewn y diweddariad peilot.

7. **Ail Gyfarfod cynghorau cymuned Llyn**
Ail gyfarfod cynghorau cymuned a thref Llŷn fydd yn cael ei gynnal ar 19.03.2025, sef nos Fercher am 7:00 yn Neuadd Sarn.
Bydd cynrychiolydd o Bartneriaeth Ogwen yn mynychu er mwyn rhoi rhesymau pam ddaeth **Partneriaeth Ogwen** i fodolaeth a hefyd cynrychiolydd o hybiau cymunedol **Canolfan Fenter Congl Meinciau, Canolfan Felin Fach, Pwllheli a Llanaelhaearn.** Mae tri o'r Cynghorwyr yn bwriadu mynychu'r cyfarfod.

8. **Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Arfordir y Cambrian,** 28.03.2025 drwy zoom, a bydd angen anfon cwestiynau erbyn 13.03.2025, i nodi unrhyw fater i gael ei drafod un a'i gan y Gweithredwr Trenau, Network Rail, y Bartneriaeth neu'r Pwyllgor yn gyffredinol. Derbyn er gwybodaeth.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

9. **Ymgynghoriad cyhoeddus – Cynllun Cynllunio Atodol : Rheoli'r Defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr)**

Mae'r drafft yn rhoi arweiniad ac yn amlygu'r ystyriaethau cynllunio berthnasol wrth lunio ac asesu ceisiadau cynllunio sydd yn ymwneud a rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau. Mae'r Canllaw hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i ymgeiswyr, a'u cynorthwyo i baratoi ceisiadau cynllunio addas i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae mwy o fanylion ar wefan y Cyngor [www.gwynedd.llyw.cymru/cca](www.gwynedd.llyw.cymru/cca). Mae'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus rhwng 24.02.2024 – 07.04.2025. **Gofynnwyd i'r Cynghorydd Miriam Williams a'r Clerc lenwi'r holiadur.**

10. **Cais cynllunio sydd angen penderfyniad:-**
**Rhif Cais: C25/0134/41/DT - Noddfa, Chwilog - Gosod pwmp gwres Riello. Cytuno**

11. **Sedd wag yn Ward Llanarmon – trafod eto mis nesaf**.

**Materion yn y gymuned**.

12. **Llanystumdwy**

a) **Caerffynnon, Llanystumdwy** – cais gan un o'r pentrefwyr i ofyn am bin halen melyn ar yr allt, oherwydd ei bod yn llithrig iawn yno pan mae'n rhewi.

Derbyniwyd ymateb gan Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, yn dweud, yn dilyn newidiadau i'r polisi perthnasol yn ôl yn 2021 fe gytunwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl finiau halen presennol ar ei rhwydwaith, a hynny'n er bod y Cyngor Cymuned berthnasol yn flaenorol wedi ymrwymo i'w cynnal neu beidio.

Ynghlwm a'r newid yma fe gytunwyd y byddai'r gost gychwynnol o archebu, gosod a llenwi unrhyw finiau halen newydd ar gefnogaeth a chost y Cyngor Cymuned berthnasol, h.y. cyfeirir unrhyw geisiadau am finiau halen newydd gan y cyhoedd i'r Cyngor Cymuned yn y man cyntaf. Os byddai'r Cyngor Cymuned yn gefnogol o'r cais, ac yn fodlon ariannu darpariaeth newydd yna byddai'r adran priffyrdd yn ystyried addasrwydd y safle ac yn trefnu'r ddarpariaeth newydd.

Y gost bresennol i archebu, gosod a llenwi bin halen am y tro cyntaf yw £365.00. Unwaith mae'r bin newydd mewn lle, yr Adran Briffyrdd fydd yn gyfrifol am ail-lenwi a chynnal y bin halen o hynny ymlaen.

Felly os dymunir gofyn am fin newydd bydd angen dangos yr union leoliad fel gall y gwasanaeth ystyried addasrwydd y safle, ynghyd a sicrhau nad yw'n rhan o'r cylchdeithiau graeanu presennol. **Cytuno i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i osod bin yma, fod y Cyngor Cymuned yn talu am ei archebu, a Cyngor Gwynedd wedyn yn talu am ei lenwi hefo halen.**

**b)** **Pont Rhydycroesau** - llawer o gerrig ar lawr ger y bont, ar dir Talhenbont, ac mae'r wal ar fin disgyn mewn llefydd eraill hefyd. Difrod wedi cael ei wneud i gar person lleol yn ddiweddar oherwydd hyn. Mae hefyd un garreg rhydd ar ben y bont. Y Clerc eisioes wedi anfon lluniau at Cyngor Gwynedd. **Angen holi eto oherwydd ei bod yn dal i fod yno.**

13. **Rhoslan/Ynys**
14. **Chwilog**

15. **Pencaenewydd/Sardis**
a) **Tregarn, Pencaenewydd** – cwynion fod golwg o amgylch rhif 1, a bod faniau/trelars yn dal 'sgrap', hen geir a giatau yn pwyso yn erbyn y clawdd yn y lon o flaen y tai gan denant rhif 4. Gofyn i'r Clerc gysylltu hefo cwmni Adra i weld os gellir gwneud rhywbeth i ddatrys y problemau a chadw'r lle yn daclus.

16. **Llangybi**

17. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.03.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

18. **Prisiau llwybrau/cae chwarae** – bydd angen trefnu i osod hysbyseb yn Y Ffynnon, y wefan a'r hysbysfyrddau hefo dyddiad cau 30.04.2024.

19. **Archwilio mewnol** – cytunwyd i ofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwilio mewnol am y flwyddyn 01.04.2024- 31.03.2025 eto eleni.

20. **Diffriblwyr Pencaenewydd, Llangybi a Sardis** – cais gan Mr Ifor Davies, yn dweud nad yw diffribliwr Pencaenewydd ar gael bellach mewn argyfwng oherwydd fod angen padiau newydd. Gwnaeth ofyn tybed a fyddai'n bosib i'r Cyngor Cymuned ddefnyddio arian y fferm solar i'w cynnal, fel bod y Cyngor yn prynu y nwyddau angenrheidiol a'i rhannu fel bydd galw. **Trafodwyd y mater a chytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt fel bo angen a phrynu offer i'w cynnal. Mae Mr Ifor Davies am barhau i ofalu amdanynt**.

21. **Cyfraniadau ariannol** – derbyniwyd llythyrau/ebyst yn diolch gan bawb a dderbyniodd daliad yn dilyn cyfarfod mis Chwefror 2025. **Derbyniwyd cyfrifon gan Clwb Snwcer Chwilog felly cytunwyd i dalu £200.00 i'w cyfrif fel y cytunwyd yng nghyfarfod 06.02.2025.**

22. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi derbyn ebost gan Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor, a derbyniwyd taliad o £417.80 ar 5 Chwefror 2025.

23. **Hysbysfyrddau angen staen arnynt** – Clerc wedi cael staen 'Ronseal quick dry satin mahogony' erbyn y cyfarfod, sef yr un lliw a ddefnyddiwyd yn wreiddiol fel gellir ei trin. Mae dwy Gynghorydd o Langybi am drin yr un ym Mhencaenewydd a Llangybi, a wedyn trefnu i basio'r tun staen i Chwilog a Llanystumdwy.

24. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Un Llais Cymru | Tâl Aelodaeth<br>01.04.2025-31.03.2026 | **403.00** | | **403.00** | **403.00** |

25. Cyflog mis Chwefror 2025 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2025<br>35 awr y mis x £17.79 = £622.65 | 622.65<br>Llai treth-<br>£124.60 =<br>**£498.05** | **498.05** | **498.05** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Chwefror 2025<br>£623.00 x 20% = £124.60 | **£124.60** | **124.60** | **124.60** |
| Costau swyddfa Clerc Chwefror 2025 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau **03.04.2025**, yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.

**Materion hwyr**

26. **Lloches Bws Rhoslan** – llofnodi'r ddogfen sydd yn dweud fod y Cyngor Cymuned yn fodlon hefo'r sgóp gwaith ar gyfer y safle, a bod y Cyngor yn cytuno i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am gynnal a chadw'r lloches a'r llwybr troed sydd yn darparu mynediad i'r safle.

27. **Cais Cynllunio**
**C25/0152/41/AC - Bryn Hyfryd, Chwilog, Pwllheli**
Diwygio amod 2 ar ganiatâd cynllunio blaenorol (C21/1240/41/C), sef i ymestyn amser cyflwyno materion a gadwyd yn nol am 3 mlynedd arall. Ar yr 8fed o Chwefror 2017 caniatawyd cais amlinnellol i adeiladu 21 tý ar y safle (yn cynnwys 7 tý fforddiadwy). **Dim sylw.**

28. '**Stand' Llefrith – Llanystumdwy** – derbyniwyd ymholiad gan drethdalwr yn holi am y stand llefrith oedd yng nghanol y pentref draws y lon i Caerffynnon. Roedd peth bryder fod darn o'r tir wedi cael ei glirio a bod ffens wedi cael ei osod ger y cae ar gyfer adeiladu stad o dai newydd, ac y byddai'r adeilad dal casgenni lefrith yn cael ei dynnu o'r safle. Gofynnwyd hefyd i'r Cyngor Cymuned ystyried gofyn am gael gadael y 'stand' llefrith yno, a rhoi llechan arno yn nodi hanes yr adeilad. Clerc am anfon ebost at Cyngor Gwynedd i holi am y posiblrwydd o adael yr adeilad yno er mwyn gwneud hyn.